**Miri Mes 2022: Meini Prawf Graddio Mes**

**Oherwydd y galw rydyn ni'n chwilio am Fes Derw Digoes eleni.**

| **Mes o ansawdd rhagorol** | **Mes o ansawdd da iawn** | **Mes o ansawdd da** | **Mes na ellir eu defnyddio** |
|---|---|---|---|
| **Cyfradd y taliad - £4.40 y kg** | **Cyfradd y taliad - £4.10 y kg** | **Cyfradd y taliad - £3.50 y kg** | **Cyfradd y taliad - £0.00** |
| •Mae pob cragen yn lân – h.y. heb eu gorchuddio â mwd.<br>• Does dim mwd na deunydd naturiol arall o'r coetir yn y sach.<br>• Mae hyfywedd y mes wedi'i gadarnhau (mae'r prawf arnofio neu suddo wedi'i wneud)<br>• Mae'r rhan fwyaf o fes yn fawr o ran maint.<br>• Does dim tystiolaeth eu bod wedi'u cnoi neu fod pryfed wedi'u difrodi.<br>• Mae sachau wedi'u llenwi'n ¾ llawn.<br>• Mae gan sachau label wedi'i chwblhau yn y bag, a label wedi'i chlymu ar y bag caeedig.<br>• Mae sampl o ddail / cwpanau mes wedi'u cynnwys mewn bag bwyd yn y sach mes.<br>• Mae rhywogaeth y coed derw wedi'i nodi'n gywir. | •Mae cregyn y mes yn lân ar y cyfan.<br>• Ychydig o ddeunydd naturiol arall yn y sachau.<br>• Nid yw'n ymddangos bod hyfywedd y mes wedi'i gadarnhau.<br>• Mes o faint cymysg.<br>• Mae gan nifer fach o fes dystiolaeth o fod wedi'u cnoi.<br>• Mae rhai mes wedi dechrau egino.<br>• Mae sachau wedi'u llenwi'n ¾ llawn.<br>• Mae gan sachau label wedi'i chwblhau yn y bag, a label wedi'i chlymu ar y bag caeedig.<br>• Mae sampl o ddail / cwpanau mes wedi'u cynnwys mewn bag bwyd yn y sach mes.<br>• Mae rhywogaeth y coed derw wedi'i nodi'n gywir. | • Mae nifer fawr o fes wedi'u gorchuddio â mwd a phridd.<br>• Swm sylweddol o ddeunydd naturiol arall yn y sachau.<br>• Mes o faint cymysg.<br>•Cryn dystiolaeth eu bod wedi'u cnoi neu fod pryfed wedi'u difrodi.<br>• Nid yw'n ymddangos bod hyfywedd y mes wedi'i gadarnhau.<br>• Mae llawer o fes wedi dechrau egino.<br>• Mae sachau wedi'u gorlenwi.<br>• Nid yw'r casglwr wedi defnyddio'r sachau anadladwy a ddarparwyd gan CNC.<br>• Nodwyd y rhywogaeth anghywir. | • Mae sampl o ddail / cwpanau ar goll o'r sachau.<br>• Ni ellir nodi rhywogaeth y mes.<br>• Mae labeli adnabod ar goll o'r sachau. |
| | | | |